

Diwygiedig Cynllun 2018-2033 Datblygu Lleol



Cyfrol 2
Tachwedd 2019

Cyfrol 2 – Cynnwys

- Cofnodion 24/04/2019 tudalen 1
- Cofnodion 24/09/2019 tudalen 4

Mae'r Panel Cyngorol yn cynnwys aelodau Cyngor Sir Caerfyrddin. Prif bwrpas y Panel yw derbyn perchenogaeth wleidyddol ar y Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig a sicrhau bod y broses o lunio'r Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig yn cael ei rheoli yn unol â'r gweithdrefnau a'r protocolau perthnasol. Fe wnaeth y Bwrdd Gweithredol, yn ei gyfarfod ar 31 Gorffennaf 2017, wedi cymeradwyo cyfansoddiad y Panel.

Panel Ymgynghorol y Cynllun Datblygu Lleol

24 Ebrill 2019 - Caerfyrddin - 9.30am

1 Yn bresennol

1.1 *Y Cynghorwyr:* Mair Stephens (Cadeirydd) Tyssul Evans, Alun Lenny, Ken Howell, John James, Kevin Madge ac Ieuan Davies.

1.2 *Swyddogion:* Llinos Quelch - Pennaeth Cynllunio, Ian Llewelyn - Rheolwr Blaen-gynllunio, Owain Enoch - Rheolwr Blaen-gynllunio a Mr Steven Murphy, Uwch-gyfreithiwr.

Arall: Cyfieithydd

2 Croeso a Chyflwyniadau

2.1 Croesawodd y Cynghorydd Mair Stephens bawb i'r cyfarfod

3 Ymddiheuriadau am Absenoldeb

3.1 Y Cynghorydd Darren Price.

3.2 Dywedodd Llinos Quelch fod yn rhaid iddi adael y cyfarfod am 10.30am.

4 Cofnodion

4.1 Darparwyd cofnodion cyfarfod y Panel a gynhaliwyd ar 26 Hydref 2018 i'r Aelodau cyn y cyfarfod.

4.2 Penderfynwyd nodi, o gofio bod y cofnodion hyn eisoes wedi cael eu cadarnhau gan y Panel drwy e-bost, eu bod yn cael eu derbyn yn y cyfarfod hwn er gwybodaeth yn unig.

5 Camau gweithredu presennol

5.1 Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad a roddwyd ar lafar gan swyddogion a oedd yn crynhoi'r cynnydd sy'n cael ei wneud ynghylch y camau gweithredu presennol yn dilyn cyfarfodydd blaenorol y Panel.

5.2 Nododd yr Aelodau fod cofnodion cyfarfodydd y Panel ar 8 Mai 2018, 17 Gorffennaf 2018, 1 Hydref 2018 a 26 Hydref 2018 wedi'u rhoi drwy'r broses o adrodd. Roedd y swyddogion ar ddeall bod y cofnodion hyn wedi'u cyflwyno i'r Tîm Rheoli Corfforaethol ar 20 Tachwedd 2018, ond nid yw'n ymddangos bod unrhyw gyfeiriad at y cofnodion yn cael eu hadrodd i'r Bwrdd Gweithredol (bwiadwyd adrodd i'r Bwrdd Gweithredol ar 17 Rhagfyr 2018). Fodd bynnag, nodwyd bod y cofnodion eisoes ar-lein fel rhan o gyhoeddi llyfr cofnodion Panel Ymgynghorol y CDLI (Cyfres 1 - Cyfarfodydd 1 i 7 y Panel). Dywedodd y Panel ei fod yn ddigon bod cofnodion y Panel yn cael eu cyflwyno yn Rhag-gyfarfod y Bwrdd Gweithredol a dim pellach.

5.3 Penderfynwyd nodi'r adroddiad a roddwyd ar lafar a chyfarwyddo swyddogion i restrï unrhyw eitemau perthnasol ar agendâu'r Panel yn y dyfodol lle bo hynny'n briodol.

5.4 Penderfynwyd newid Cylch Gwaith y Panel mewn perthynas ag adrodd cofnodion fel nad oes angen iddynt fynd ymhellach na Rhag-gyfarfod y Bwrdd Gweithredol (gweler cofnod 8.3 o'r cofnodion hyn).

6 Ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad ynghylch Fersiwn Drafft o'r Strategaeth a Ffefrir a dogfennau cysylltiedig

6.1 Rhoddwyd i'r Aelodau y sylwadau a gyflwynwyd (ac ymatebion a argymhellir iddynt) mewn perthynas â'r dogfennau canlynol cyn y cyfarfod: (a) Fersiwn Drafft o'r Strategaeth a Ffefrir (b)

Arfarniad Cynaliadwyedd/Adroddiad Cychwynnol yr Asesiad Amgylcheddol Strategol a (c) Adroddiad Sgrinio yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd.

6.2 Roedd y Fersiwn Drafft o'r Strategaeth a Ffefrir wedi derbyn 269 o sylwadau. Derbyniwyd llawer o'r sylwadau hyn gan randdeiliaid statudol – gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Dŵr Cymru yn ogystal ag Awdurdodau Cynllunio Lleol cyfagos. Dywedodd y Panel fod angen parhau i gynnal trafodaeth adeiladol a chydweithredol gyda'r rhanddeiliaid hyn wrth i'r broses o lunio Cynllun symud yn ei blaen.

6.3 Roedd swyddogion o'r tîm blaen-gynllunio wedi cyfarfod â swyddogion Llywodraeth Cymru ar 23 Ebrill 2019 a rhoddwyd crynodeb o'r trafodaethau a gynhaliwyd i'r Panel. Cyfeiriwyd yr Aelodau at gynnwys Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 10), yn enwedig o ran ystyriaethau gwledig a goblygiadau posibl Polisi Cynllunio Cenedlaethol ar y CDLI diwygiedig. Bydd angen i'r gydnabyddiaeth o ystyriaethau gwledig (tai yn benodol) mewn ardaloedd gwledig yn y CDLI diwygiedig fod yn seiliedig ar dystiolaeth. Mae canlyniadau'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol, ynghyd â gwaith y Tasglu Gwledig, yn debygol o fod yn elfennau hanfodol yn hyn o beth. Nododd yr Aelodau fod sylwadau Llywodraeth Cymru ynghylch y Fersiwn Drafft o'r Strategaeth a Ffefrir yn cyfeirio at rifyn 3 o Lawlyfr y CDLI ond nid yw'r llawlyfr hwn wedi'i gyhoeddi eto.

6.4. Yn ôl y disgwyl, derbyniwyd nifer o sylwadau mewn perthynas â graddfa a dosbarthiad y twf. Wrth nodi bod cyfres gadarn o dystiolaeth yn cefnogi'r Fersiwn Drafft o'r Strategaeth a Ffefrir, pwysleisiodd y Panel y bydd angen rhoi tystiolaeth bellach wrth symud ymlaen. Dylai tystiolaeth o'r fath hefyd ganiatáu asesiad o effaith y cynllun ar nifer o nodweddion pwysig – gan gynnwys y Gymraeg. I'r perwyl hwn, cafwyd trafodaeth ar y sylwadau a oedd wedi dod i law mewn perthynas â Pholisi Strategol 7. Nododd y Panel fod diffyg methodoleg a chanllawiau gan Lywodraeth Cymru ar gyfer mesur unrhyw effaith ar y Gymraeg. Pwysleisiodd y Panel ei bod yn bwysig bod tystiolaeth sy'n benodol i ardal leol yn cael ei darparu a chroesawodd y Panel y gwaith dadansoddi geo-ieithyddol sydd wedi dechrau. Roedd consensws rhwng Aelodau a swyddogion bod y Gymraeg fel iaith gymunedol yr un mor gyffredin mewn ardaloedd trefol ac ardaloedd gwledig y Sir (caiff ardaloedd ôl-ddiwydiannol Dyffryn Aman a Chwm Gwendraeth eu henwi fel cadarnleoedd ieithyddol allweddol yn hyn o beth).

6.5 Mae Adroddiad Cychwynnol yr Asesiad Amgylcheddol Strategol/Arfarniad Cynaliadwyedd wedi denu 11 o sylwadau, ac mae Adroddiad Sgrinio'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd wedi denu 64 o sylwadau. Pwysleisiodd y Panel bwysigrwydd defnyddio'r sylwadau a oedd wedi dod i law i gydnabod rhan ailadroddol bwysig yr Arfarniad Cynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd wrth baratoi'r CDLI diwygiedig.

6.6 Nododd yr Aelodau ei bod yn aneglur o hyd pa ddyddiad y bydd y Cyngor Sir yn ystyried adroddiad ar y Fersiwn Drafft o'r Strategaeth a Ffefrir a dogfennau atodol, fodd bynnag mae'n debygol y bydd yn cael ei wneud ar 15 Mai 2019. Yn amodol ar benderfyniad(au) y Cyngor, bydd y strategaeth a'r dogfennau ategol yn cael eu diwygio a bydd unrhyw newidiadau yn cael eu cynnwys yn fersiwn nesaf y Cynllun. Yn hyn o beth, bydd unrhyw newidiadau o ganlyniad i benderfyniadau'r Aelodau ac argymhellion y swyddogion (gan gynnwys o adroddiadau'r Arfarniad Cynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd a thystiolaeth sy'n dod i'r amlwg) yn cael eu cynnwys yn y fersiwn adneuol drafft o'r Cynllun Datblygu Lleol.

6.7 Penderfynwyd nodi'r adroddiadau ysgrifenedig a ddarparwyd a chymeradwyo'r ymatebion a argymhellwyd i'r sylwadau a ddaeth i law ar gyfer mynd trwy'r broses o adrodd.

6.8 Penderfynwyd gwahodd cynrychiolydd o'r Tasglu Gwledig i ddod i gyfarfod nesaf y Panel.

6.9 Penderfynwyd y bydd cyflwyniad ar y Gymraeg a'r CDLI diwygiedig yn cael ei ddarparu yng nghyfarfod nesaf y Panel.

6.10 Roedd Llinos Quelch wedi gadael y cyfarfod am 10.30am ac nid oedd wedi dychwelyd.

7 Y wybodaeth ddiweddaraf ar lafar - Safleoedd Ymgeisio

7.1 Rhoddwyd diweddariad ar lafar yn nodi, ochr yn ochr â'r ymgynghoriad ar y Fersiwn Drafft o'r Strategaeth a Ffeirir, y cynhaliwyd ymgynghoriad pellach ar y safleoedd hynny a gyflwynwyd fel rhan o'r 'Galwad am Safleoedd Ymgeisio' a gynhaliwyd yn 2018. Rhoddodd hyn gyfle i bawb a wnelont â'r mater gyflwyno eu sylwadau ar y 926 o safleoedd a gyflwynwyd i'r Cyngor. Nododd y Panel nad oedd yr ymatebion a ddaeth i law fel rhan o'r ymgynghoriad ar y Gofrestr o Safleoedd Ymgeisio yn destun y broses adrodd, ond gallant fod yn ffordd o gael gwybodaeth. Amcangyfrifwyd bod 3,000 o sylwadau wedi dod i law, ac roedd yr Aelodau'n gwerthfawrogi'r baich gweinyddol ar y tîm blaen-gynllunio yn hyn o beth.

7.2 Penderfynwyd nodi'r adroddiad.

8 Newid i Gylch Gwaith y Panel.

8.1 Rhoddwyd y cylch gwaith presennol i'r Aelodau cyn y cyfarfod er gwybodaeth.

8.2 Awgrymwyd y dylid newid pwynt 1 o dan y pennawd "Cyfarfodydd y Panel" er mwyn nodi y bydd Aelodau yn derbyn rhybudd ysgrifenedig ynghylch cyfarfodydd gan y Rheolwr Blaen-gynllunio drwy e-bost heb fod yn hwyrach na 10 diwrnod gwaith cyn dyddiad y cyfarfod yn hytrach na 21 diwrnod gwaith. Awgrymwyd hefyd y dylid gwneud gwelliant i nodi y bydd Aelodau'n derbyn yr agenda, ynghyd â phapurau perthnasol, gan y Rheolwr Blaen-gynllunio, heb fod yn hwyrach na 7 diwrnod gwaith cyn y cyfarfod yn hytrach na 10 diwrnod gwaith.

8.3 I'r perwyl hwn, cyfeiriwyd hefyd at gofnod 5.4 y cofnodion hyn a chadarnhawyd y newid a gynigwyd.

8.4 Penderfynwyd cymeradwyo'r newidiadau a gynigwyd yn unol â chofnodion 8.2 ac 8.3 y cofnodion hyn. Ni fydd angen rhoi gwybod i'r Bwrdd Gweithredol am y Cylch gwaith diweddaraf.

9 Aelodaeth

9.1 Cyfeiriodd y Cadeirydd at y newidiadau yn y grwpiau gwleidyddol o fewn y Cyngor a'r rheidrwydd i'r Panel fod yn gytbwys yn wleidyddol. Fodd bynnag, mae rhywfaint o ansicrwydd o hyd o ran y materion hyn, gan nad yw'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol wedi'i gynnal eto. Roedd pawb yn cytuno bod parhad o ran aelodaeth y Panel yn bwysig.

9.2 Penderfynwyd bod yr aelodaeth yn aros fel y mae, yn amodol ar adolygiad pellach maes o law.

10 Cyfarfod nesaf y Panel.

10.1 Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei gynnal pan fydd digon o dystiolaeth i allu rhoi'r cyflwyniad y cyfeiriwyd ato yng nghofnod 6.9 y cofnodion hyn.

11 Diwedd

11.1 Daeth y cyfarfod i ben am 11.45am

Panel Ymgynghorol y Cynllun Datblygu Lleol (CDLI)

24 Medi 2019 - Caerfyrddin - 1.30pm

1 Yn bresennol

1.1 *Y Cynghorwyr:* Mair Stephens (Cadeirydd), Sue Allen, Ieuan Davies, Tyssul Evans, Ken Howell, John James, Alun Lenny a Darren Price.

1.2 *Swyddogion:* Llinos Quelch - Pennaeth Cynllunio, Ian Llewelyn - Rheolwr Blaen-gynllunio, Steven P Murphy, Uwch-gyfreithiwr, Rachel J Jones, Simon Clement - Swyddogion Blaen-gynllunio, Gwyneth Ayers - Rheolwr Polisi Corfforaethol a Phartneriaeth.

1.3 *Arall:* Cyfieithydd.

2 Croeso a Chyflwyniadau

2.1 Croesawodd y Cyngorydd Mair Stephens bawb i'r cyfarfod.

3 Ymddiheuriadau am Absenoldeb

3.1 Y Cyngorydd Kevin Madge.

3.2 Y rheiny y derbyniwyd ymddiheuriadau wrthynt oedd y Cyngorydd Cefin Campbell a Myfanwy Jones (Swyddog Polisi'r Gymraeg).

4 Cadarnhau Cofnodion

4.1 Darparwyd cofnodion cyfarfod y Panel a gynhaliwyd ar 24 Ebrill 2019 i'r Aelodau cyn y cyfarfod.

4.2 Penderfynwyd cadarnhau'r cofnodion a'u cyflwyno i Rag-gyfarfod y Bwrdd Gweithredol er gwybodaeth.

5 – Argymhellion Grŵp Gorchwyl Materion Gwledig Sir Gaerfyrddin

5.1 Nodwyd bod yr adroddiad wedi'i dderbyn gan y Cyngor Sir llawn ar 11 Medi 2019. Bydd Panel Ymgynghorol Materion Gwledig yn cael ei sefydlu i adeiladu ar waith y Grŵp Gorchwyl Materion Gwledig. Bydd y Panel hefyd yn monitro'r cynnydd sy'n cael ei wneud o ran argymhellion yr adroddiad drwy gynllun gweithredu.

5.2 Rhoddodd Rheolwr Polisi Corfforaethol a Phartneriaeth y cyngor drosolwg o argymhellion yr adroddiad, yn arbennig materion cynllunio. Nodwyd efallai y byddai modd i siroedd eraill sy'n wynebu materion tebyg weithio gyda'i gilydd.

5.3 Penderfynwyd diolch i'r Rheolwr Polisi Corfforaethol a Phartneriaeth.

5.4 Penderfynwyd hefyd gyfeirio at y 'Fenter 10 Tref' yn y CDLI Diwygiedig.

6 Y CDLI Diwygiedig a'r Iaith Gymraeg

6.1 Rhoddodd y Swyddogion Blaen-gynllunio gyflwyniad a chafwyd trafodaeth anffurfiol. Mae papur pwnc yn cael ei lunio i gefnogi'r CDLI Diwygiedig. Bydd cymorth ymgynghori allanol yn cael ei gaffael i lunio asesiad o Effaith y CDLI Diwygiedig ar y Gymraeg, ynghyd â methodoleg ar gyfer yr asesiad hwn. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau am gynnwys y fframwaith polisi sy'n datblygu ar y pwnc hwn o fewn y CDLI Diwygiedig.

6.2 Penderfynwyd diolch i'r swyddogion am y cyflwyniad / trafodaeth.

7 CDLI Diwygiedig Adneuol

(a) Amcanestyniadau

7.1 Darparwyd adroddiad i Aelodau'r Panel ynghylch amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd cyn y cyfarfod. Ategodd y swyddogion blaen-gynllunio yn briodol at yr adroddiad hwn drwy roi cyfraniad ar lafar.

7.2 Cafwyd trafodaeth ynghylch goblygiadau mudo, creu swyddi o'r radd flaenaf a phatrymau cymudo o ran y CDLI Diwygiedig.

7.3 Penderfynwyd y byddai swyddogion yn gwneud ymholiadau i ganfod i ba raddau y mae data mudo ar gael ar sail ward etholiadol.

7.4 Penderfynwyd hefyd nodi bod cytundeb cyffredinol ymhlith yr Aelodau o ran addasrwydd senario demograffig y Twf a Ragwelir dros 10 mlynedd, fel y'i cyflwynir. Mae hyn yn cyfateb i ofyniad tai o 8,835 o anheddau yn ystod cyfnod y CDLI Diwygiedig rhwng 2018 a 2033 (adeiladu 589 o anheddau'r flwyddyn).

(b) Y Datganiad Ysgrifenedig sy'n Datblygu

7.5 Cyn y cyfarfod, rhoddwyd i'r aelodau fersiwn o'r CDLI Diwygiedig Adneuol sy'n cael ei ddatblygu. Ategodd y Rheolwr Blaen-gynllunio yn briodol at yr adroddiad hwn drwy roi cyfraniad ar lafar.

7.6 Pwysleisiodd y Cadeirydd rôl bwysig y Panel Ymgynghorol o ran nodi diwygiadau i'r CDLI Diwygiedig Adneuol wrth barhau i fynd drwy'r broses o adrodd i'r Cyngor. Cadarnhawyd y broses o adrodd a'r amserlen yn hyn o beth. Hwylusodd y Cadeirydd drafodaeth ynghylch cynnwys y ddogfen sy'n datblygu fel y'i cyflwynwyd.

7.7 Nodwyd bod y Mapiau Mewnosod yn cael eu paratoi ar hyn o bryd a bod sesiynau 'galw heibio' wedi'u cynnig i'r holl Aelodau Etholedig. Bydd hyn yn galluogi'r swyddogion i drafod materion penodol o ran safle / anheddiad.

7.8 Penderfynwyd diolch i'r swyddogion am eu cyfraniadau.

7.9 Penderfynwyd gofyn i swyddogion adolygu'r sylwadau a wnaed gan aelodau'r Panel a'u cynnwys fel y bo'n briodol.

8 Gadael y cyfarfod

8.1 Ar ôl diolch iddi am fod yn bresennol, gadawodd y Rheolwr Polisi Corfforaethol a Phartneriaeth y cyfarfod am 3.40pm, ac nid oedd wedi dychwelyd.

9 Y broses ar gyfer cadarnhau cofnodion y cyfarfod hwn (24/9/2019)

9.1 Nid yw dyddiad y cyfarfod nesaf y Panel yn hysbys ar hyn bryd.

9.2 Penderfynwyd y byddai'r swyddogion yn dosbarthu'r cofnodion i Aelodau'r Panel drwy e-bost yn ystod y bythefnos nesaf er mwyn cael cadarnhad o hynny. Gellir cyhoeddi'r cofnodion hyn ynghyd â'r CDLI Diwygiedig Adneuol fel rhan o'r sylfaen dystiolaeth a byddant hefyd yn cael eu cyflwyno i Rag-gyfarfod y Bwrdd Gweithredol er gwybodaeth.

10 Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC)

10.1 Gofynnodd yr Aelodau am gael eu briffio ynghylch cynnwys y FfDC yn ystod yr ymgynghoriad.

10.2 Penderfynwyd y byddai'r holl Aelodau Etholedig yn cael eu briffio.

11 Diwedd

11.1 Daeth y cyfarfod i ben am 3:52pm.